Eira

Cysyniadau: **Mwynhad, meddwl am eraill.**

Amcan: **Helpu'r plant i werthfawrogi'r byd o'u cwmpas.**

Cyfarpar: **Lluniau o olygfeydd o eira, dyn eira, pluen eira.**

Cyflwyniad:

● Sut dywydd ydi hi wedi bod yn ystod y dyddiau diwethaf? Gellir cyfeirio at yr amrywiaethau – glaw, gwynt, haul, eira, niwl.

● Pwysleisio ein bod yn cael gwahanol fathau o dywydd yng Nghymru.

● Beth am dywydd ym Mhegwn y Gogledd ac yn Affrica?

● Holi'r plant pa fath o dywydd maen nhw'n ei fwynhau? Ond beth petaem ni'n cael yr un math o dywydd drwy'r flwyddyn? Haul drwy'r flwyddyn. Beth am y planhigion heb ddŵr, a ninnau?

● Yr adeg yma o'r flwyddyn, yn y gaeaf, byddwn yn cael tywydd oer, ac efallai eira.

Trafodaeth bellach:

● Mae rhai pobl a phlant yn hoffi'r eira ond dydy eraill ddim. Dyma beth ddywedodd rhai:

Nain:

Fedra i ddim dioddef eira. Mae o'n garchar. Mi ydw i ofn mynd allan o'r tŷ rhag ofn i mi syrthio a thorri fy nghoes.

Dad:
Pan oeddwn i'n blentyn bach mi oeddwn i wrth fy modd yn chwarae yn yr eira. Ond ar ôl i mi ddechrau gyrru car mi ydw i ofn am fy mywyd rhag ofn i mi sgidio a tharo neu ladd rhywun arall.

Mam:
Dyma'r adeg orau o'r flwyddyn pan fydd haenen o eira wedi gorchuddio'r tir. Mae pob man yn edrych yn brydferth. Pob man yn berffaith wyn ac yn edrych yn lân.

Sian (8 oed):
Hwre, mae'r eira wedi dod! Mi ga i fynd allan i'r ardd i wneud dyn eira efo Huw, fy mrawd bach. Mi gaiff o roi moronen yn drwyn i'r dyn eira.

Gethin (6 oed):
Dyma'r amser gorau o'r flwyddyn. Mynd yn y sleid i lawr y cae a'r eira ymhob man. Mae'n well o lawer na mynd i'r ysgol.

- Dydy Nain a Dad ddim mor hoff â hynny o'r eira. Pam tybed?

- Ond beth am Mam, Sian a Gethin? Ydyn nhw'n hoff o'r eira?

- Faint ohonoch chi sy'n hoff o'r eira? Pam?

- Oes 'na rywun sydd ddim yn hoff o'r eira? Pam?

Trafodaeth bellach:

- Mae'n rhaid bod yn ofalus iawn wrth chwarae yn yr eira. Byddwch yn ofalus pan fyddwch yn taflu peli eira rhag ofn i chi daro rhywun.

- Byddwch yn ofalus hefyd o bobl mewn oed fel Nain, sydd ofn cerdded yn yr eira rhag ofn iddi syrthio.

- Mae'n rhaid bod yn wyliadwrus ar y ffordd pan fydd yr eira wedi rhewi rhag ofn i'r ceir sgidio a tharo rhywun.

- Mwynhewch yr eira ond byddwch yn wyliadwrus.

Emyn: O dyna braf yw'r byd!: Canu Clod 305

Dyfyniad o'r Beibl:
Mae'n anfon eira fel gwlân,
yn gwasgaru barrug fel lludw,
ac yn taflu cenllysg fel briwsion. Salm 147:16-17 beibl.net

Munud i feddwl:
Mae gan yr Esgimo 52 o enwau am eira. Pam tybed?

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, diolch am gael chwarae a mwynhau ein hunain yn yr eira. Ond cofiwn am bobl eraill, yn enwedig pobl mewn oed, sydd ofn mynd allan yn yr eira. Amen.